AMGUEDDFA CYMRU

# PECYN NADOLIG

# GWESTY'R VULCAN




amgueddfa.cymru

# EICH NADOLIG
# EICH STORI
# EICH VULCAN

## Mwynhewch hwyl yr ŵyl yn y Vulcan!

Yn 2012, ar ôl ymgyrch lwyddiannus i arbed yr adeilad, cynigiwyd yr adeilad yn ffurfiol i Amgueddfa Cymru gan y perchnogion. Ym mis Mai'r flwyddyn honno dechreuodd y Curaduron a'r Uned Adeiladau Hanesyddol y broses o gofnodi'r adeilad yn ofalus cyn dechrau'r gwaith datgymalu. Dechreuodd y gwaith ailadeiladu yn 2020, ac yn haf 2024 bydd y drysau'n ailagor am y tro cyntaf mewn degawd.

Gwesty'r Vulcan ar dir hanesyddol Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw lleoliad mwyaf arbennig 2024 am barti Nadolig.

Camwch yn ôl i Nadolig 1915 a rhyfeddu eich gwesteion gyda pharti hollol unigryw. Ai chi fydd y cyntaf i ddathlu'r 'Dolig yn y Vulcan?

Os ydych chi'n trefnu parti gwaith, am ddathlu mewn steil, neu'n chwilio am rywle am noson i'w chofio gyda theulu a ffrindiau, pa le gwell y gaeaf hwn nag un o eiconau hanesyddol Caerdydd.

Gyda dyddiadau cyfyngedig iawn ar gael rhwng 30 Tachwedd a diwedd Rhagfyr, bachwch ar y cyfle nawr i ddathlu yn y Vulcan dros y 'Dolig!

I archebu, e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk





# PECYN NADOLIG Y VULCAN

£599 + TAW (£719 yn cynnwys TAW)

**£599 +TAW**

### Pecyn yn cynnwys:

- Mynediad arbennig o 6.30pm tan 11.30pm
- Staff bar penodedig
- Addurniadau Nadolig
- Opsiwn i dalu am y bar ymlaen llaw
- Parcio am ddim ar y safle
- Defnydd o'r system PA ar gyfer adloniant

### Opsiynau Bwyd a Diod:

- Trio Cwrw Vulcan – Gallwch chi archebu tri chwrw i'w blasu ymlaen llaw am £10 y pen, neu fwynhau ein detholiad o gwrw lleol
- Arlwyo – Siaradwch â'r tîm am drefnu danteithion Nadolig wrth y bar neu stondinau bwyd trydydd parti

### Cludiant

Mae rhestr o gwmnïau tacsi a bysiau lleol ar gael ar gais.

### Rhoddion

Mae detholiad o anrhegion o'r Vulcan ar gael yn Siop Sain Ffagan. Siaradwch â'r tîm i archebu rhoddion ymlaen llaw.

### Telerau ac Amodau

- Uchafswm o 70 o bobl
- Dyddiau Sadwrn yn unig
- Mae opsiwn i gau yn hwyrach ar gael ar gais am bris uwch
- Gall ceir gael eu gadael dros nos drwy gofnodi rhif cofrestru
- Dim ysmygu ar y safle
- Mae blaendal o 20% yn cael ei gymryd wrth archebu, ac ni ellir ei hawlio yn ôl
- Rhaid gwario isafswm yn y bar



## Cyswllt

Am fwy o wybodaeth, i drefnu ymweliad safle ac i archebu, cysylltwch dros e-bost â **llogi@amgueddfacymru.ac.uk** neu ffoniwch **02920 57 33 22.** Cymerwch gipolwg ar ein gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw **Amgueddfa Cymru** sy'n gasgliad o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych chi'n ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac ar gael i bawb ei defnyddio. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol.

Rhif elusen gofrestredig 525774

Lluniau gan Coal Poet Media.

**amgueddfa.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**